

❖ LLE AMLWG I MAIR

Rhaid rhoi lle amlwg yn nhymor yr Adfent i Mair, mam Iesu, yn enwedig wrth inni atgoffa'n gilydd am Emyr Mawl y ferch ifanc pan ymwelodd â chartref Sachareias ac Elisabeth, ychydig cyn geni ei mab.

Mae'r fam ddisgwylgar hon yn naturiol yn edrych ymlaen at yr enedigaeth gan y byddai ei fywyd yn achosi rhyfeddod a syndod i lawer! Cofiwn ei geiriau yn y Magnificat:

‘...Oherwydd gwnaeth yr hwn sydd nerthol bethau mawr i mi, a sanctaidd yw ei enw ef; y mae ei drugaredd o genhedlaeth i genhedlaeth i'r rhai sydd yn ei ofni ef. Gwnaeth rymuster â'i fraich, gwasgarodd y rhai **balch** eu calon; tynnodd **tywysogion** oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl; llwythodd y newynog â rhoddion, ac anfonodd y **cyfoethogion** ymaith yn waglaw.’

Yn ôl Cân Mair, mae teip arbennig o bobl i gael sioc eu bywyd! Caiff y rhai i bob golwg sydd ar ‘y brig’ mewn cymdeithas sef y ‘balch’, y ‘cyfoethog’ a'r ‘tywysogion’ eu gwastatáu. Yn hytrach na chael mwynhau breintiau a statws cânt eu gwasgaru, eu tynnu i lawr a'u hanfon ymaith yn waglaw.

Gwelwn yng ngeiriau'r Magnificat fod newid ar ddigwydd yn nyfodiad Teyrnasiad y Crist a bod y newid mewn dwy ffordd! Bydd y sawl sydd ar waelod rhengoedd cymdeithas, y tlawd a'r newynog yn cael eu dyrchafu i'r brif reng, gan gyfnwid lle â'r balch, y cyfoethog a'r tywysogion.

Gobaith a barn felly yw geiriau Mair. Gobaith i'r rhai iselradd, gan ei chynnwys hi ei hunan ar ddechrau ei cân, ‘am iddo ystyried distadledd ei lawforwyn’, ond barn a ddaw ar bawb sydd wedi gwasgu ar eraill.

Daw'r Adfent felly â'i newydd da, ond daw hefyd â'i newydd drwg am fod dyfodiad Crist yr Arglwydd a'i Neges Newydd yn newid syniadau arferol a disgwyliadau traddodiadol pobl Palesteina.

Gwireddwyd Cân Mair ym mywyd a gweinidogaeth ei mab – daeth Iesu Grist â phatrwm newydd i'n byd. Oni ddylem ni sydd wedi ein trwytho a'n hyfforddi yn Ei eiriau sylweddoli bod derbyn Crist Iesu a'i safonau yn golygu newid ein syniadau am safle a statws mewn cymdeithas? Wrth baratoi i ddathlu Ei ddyfodiad y Nadolig hwn, byddwn barod efallai i gael ein darostwng, ond gobeithio hefyd ein dyrchafu ar lefel ysbrydol.

Gweddï: Mawrygwn Di O Grist am i Ti, drwy dy ddyfodiad i'n byd, newid ein syniadau a'n safonau. Mawrygwn Di am roi gobaith i'r rhai a ormeswyd ac sy'n dioddef caledi yn ein cymunedau lleol a chenedlaethol gan roi hyder a gorfoledd i bawb sy'n gweddïo a gweithredu rhyddid cydwybod a hawliau cyfiawn i ddynoliaeth. Derbyn ni, yn enw Gwardwr y byd. Amen.

Wynn Vittle